DWNN, JAMES (c. 1570 - c. 1660), prydydd o Sir Drefaldwyn.

Enw: James Dwnn
Dyddiad geni: c. 1570
Dyddiad marw: c. 1660
Rhiant: Alice ferch Meredydd ap Dafydd
Rhiant: Lewys ap Rhys ap Owain
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: prydydd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Garfield Hopkin Hughes

1594 yw'r dyddiad cynharaf wrth ei gerddi (Mostyn MS. 148 (692)), a 1657 yw'r diweddaraf (B.M. MS. 51 (73)). Y mae'n bosibl, felly, mai ef oedd mab hynaf Lewys Dwnn. Canai'r ddau yn fynych i'r un personau - teuluoedd Gogerddan, Mathafarn, Gregynog, a'r Plasau Duon, Dr. John Davies, Mallwyd, etc., ond cyfyngai James Dwnn ei hun gan mwyaf i'w ardal ef ei hun. Cadwodd lawer o'i gerddi yn ' Llyfr James Dwnn ' (Llanstephan MS 53), ond y mae llawer hefyd ar wasgar mewn cyfrolau eraill, megis N.L.W. MSS. 1560, 2691, 5261, 5269, 6496; Pen. MSS. 91, 92,327; Cardiff MSS. 83, 84, etc. Cerddi moliant a marwnad yw'r mwyafrif mawr, ond dylid sylwi ar ei englynion am losgi plas Mathafarn gan filwyr Cromwell yn 1644, ac ar y pedwar cywydd ' ar yr epistol ddydd g yl y Gwirioniaid,' ' y Sul gwedi yr Natolig,' ' ddydd Calan,' a ' dydd g yl Ystwyll ' (N.L.W. MS. 7191 (262-5)).

Awdur

Garfield Hopkin Hughes, (1912 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu